

Adroddiad Materion Addysg

1. **Ymgynghoriad 'Sicrhau Mynediad i'r Cwricwlwm Llawn'**. Y dyddiad cau yw'r 28ain o Dachwedd, 2019. Gweler fy ymatebion yn y ddogfen atodol. Mae'n bwysig fod aelodau enwadol sydd yn aelodau o GYSAGau awdurdodau lleol neu sydd â diddordeb mewn materion addysgol yn ymateb ac yn cadw golwg ar y datblygiadau hyn.
2. **Brexit ac Ysgolion**. Mae'r ddogfen 5 tudalen 'Canllawiau Ymadael â'r UE: paratodau dim cytundeb ar gyfer ysgolion Cymru' a gyhoeddwyd 5ed Ebrill 2019 (gweler y ddogfen atodol) yn canolbwyntio ar: Ceisiadau am statws preswlydd sefydlog ar gyfer gwladolion yr UE/AEE a'r Swistir; Llefydd Ysgolion; Paratodau fel cyflogwr gan gynnwys cydnabyddiaeth i gymwysterau addysgu ar gyfer gwladolion yr AEE a'r Swistir; Gwirio am gyfyngiadau neu sancsiynau ar athrawon gan awdurdod rheoleiddio'r AEE; Teithio i'r UE; Diogelu data; Cyflenwad Bwyd ac Erasmus+.
3. **Cyfraniad asiantaithau wrth addysgu Cwricwlwm i Gymru 2022**, e.e. Agor y Llyfr (AG), a Brook sy'n darparu ystod eang o raglenni Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Gweler hefyd restr Y Parchg Aled Davies o grwpiau ac unigolion a fyddai'n gallu cyfrannu i'r cwricwlwm Newydd.
4. **Materion Eglwysi Rhyddion**. Roeddwn yn bresennol mewn cyfarfod o'r FCEC yn Llundain ar 30.10.19. Cyflwynais adroddiad yn diweddarar'r aelodau ar y datblygiadau addysgol diweddaraf yng Nghymru.

Vaughan Salisbury

14/11/2019